Rhifyn 2, Mawrth 07 Pris: 75c

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

yr Athro

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Aelodau Cyngor UCAC

(Rhes flaen o'r chwith): Emrys Wynne, Robert Howells, Gwyn Morris, Gail Jones, Dilwen Walsh, Gareth Wyn Hughes, Clem Lewis
(Rhes ôl): Huw Richards, Raymond Wheldon Roberts, Dilwyn Roberts-Young, Dilwyn Ellis Hughes, Emyr Wyn Thomas, Ioan Rhys Jones, Nan Williams, Elaine Edwards
(Ar ben y bwrdd): Wil Parry, Phil Higginson, Eryl Owain, Gruff Hughes

Cwmni Sterling:
gwasanaeth ariannol annibynnol gan gwmni sefydlog a llwyddiannus

Sefydlwyd Cwmni Asedau Sterling yn 1983, a rhoddwn gryn bwyslais ar ddarparu cyngor annibynnol ar fuddsoddiadau gan nad oes gennym gytundebau a fyddai'n ein clymu wrth dai dyroddi *(issuing house)*, cwmni gwarantu, stoc brocer, na marchnadwyr *(market maker)*. O ganlyniad, byddwn yn derbyn a chasglu gwybodaeth oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau. Mae ein technoleg ddiweddara yn sicrhau y gallwn honni ein bod yn un o'r cwmnïau gorau yn y blynyddoedd diwethaf o ran safon ein hymchwil.

Ein polisi yn gyffredinol yw canolbwyntio wrth fuddsoddi ar ddarparwyr o'r safon uchaf, y rhai hynny sydd â rheolwyr profiadol, dibynadwy â record dda.

Ein nod bob amser yw cynnig y cyngor gorau posib, adrodd yn ôl a sicrhau gweinyddiaeth dda. Mae ein gwasanaeth yn bersonol, yn broffesiynol ac yn ddwyieithog, ac rydym hefyd yn cydnabod mor bwysig yw sicrhau dilyniant wrth ymwneud â'n cwsmeriaid, er mwyn sicrhau'r canlyniadau a'r budd gorau posibl.

Cynigir cyngor ariannol i unrhyw aelod ar gynilion, morgeisi, pensiwn, buddsoddiadau a threth etifeddu.

Mae cytundeb Sterling ac UCAC yn mynd 'nôl dros ddeng mlynedd; mae wedi bod yn berthynas effeithiol sydd yn rhoi incwm ychwanegol i UCAC, gan fod canran o'r hyn sydd yn gael ei ennill gan Sterling yn daladwy i UCAC.

YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL

YMDDEOL YN HAF 2007 – ARIAN I'W FUDDSODDI? EISIAU CYNGOR NEU WYBODAETH ARIANNOL?

Dewch i gyfarfod Gerallt Davies o Gwmni Sterling; bydd UCAC yn cael cyfran o'r comisiwn gan y cwmni ac fe gewch chwithau, fel aelod o UCAC, gyngor ariannol am ddim

Gwesty Beaufort Park, Yr Wyddgrug, 9 Mai am 7 o'r gloch
Gwesty'r Celt, Caernarfon, nos Iau, 10 Mai am 7o'r gloch
Y Quality Hotel, Caerdydd, nos Fawrth, 15 Mai am 7 o'r gloch
Gwesty'r Ivy Bush, Caerfyrddin, nos Iau, 17 Mai am 7 o'r gloch

Cynigir cyngor ariannol i unrhyw aelod ar gynilion, morgeisi, pensiwn, buddsoddiadau a threth etifeddu.
Bydd un o Swyddogion UCAC hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd – pob croeso i chi!

t2 Asiantaethau t3 Cyfarfod Cyngor Gwynedd t4 Cynllun Masnach Deg

Creu ysgol sydd ag awyrgylch Gymraeg

Diolch i'r rhai a roddodd wybod sut y mae eu hysgolion hwy wedi ceisio annog Cymreigrwydd yn yr ysgol.

1. *Rydym yn cael trafferth cael staff cynorthwyol amser cinio ac amser chwarae sy'n siarad Cymraeg – unrhyw awgrymiadau?*

Defnyddio'r rhieni
Roedd ein hysgol ni wedi cael y cyfyng-gyngor hwn. Roeddem yn ymwybodol iawn mai Saesneg oedd geirfa bwyd a geirfa chwarae'r plant a'u bod yn tueddu i siarad yn Saesneg ag unrhyw oedolion dieithr a ddeuai ar yr iard chwarae. Cawsom gŵynion hefyd gan rieni'r plant lleiaf oedd yn uniaith Gymraeg gan nad oedd eu plant yn deall y staff.

Gyda chymorth rhai o'r rhieni, aethom ati i recriwtio drwy gysylltu â'r gangen leol o CYD, Merched y Wawr a'r papur bro. Holwyd ymhlith rhieni'r ysgol am gymorth, ac yn wir daeth neiniau a modrybedd a chefndryd i'r fei oedd â diddordeb. Roedd rhai rhieni hefyd yn fodlon cymryd tro yn cynorthwyo, er mwyn sicrhau bod cynifer o siaradwyr Cymraeg â phosibl ar gael amser cinio, er inni orfod cael prawf CRB i bob un oedd â chyswllt agos â'r plant.

Cynnig gwersi Cymraeg
Mae gennym staff amser cinio gwych, ond rai blynyddoedd yn ôl daeth y ffaith nad oeddynt yn gallu neu yn ddim digon hyderus i siarad Cymraeg, yn broblem yr oedd yn rhaid mynd i'r afael â hi. Felly trefnwyd gwersi Cymraeg ar eu cyfer, fel rhan o'u diwrnod gwaith. Roedd y gwersi yn canolbwyntio ar yr hyn y byddant yn ei ddefnyddio gyda'r plant amser cinio ac amser chwarae, a threfnwyd bod rhestr o'r fwydlen ac ati ar gael iddynt bob dydd yn Gymraeg. Cawsom ychydig o drafferth darbwyllo'r staff ar y dechrau pa mor bwysig oedd defnyddio eu Cymraeg â'r plant, ond o'u hannog yn aml a chael rhieni i ddiolch iddynt am eu hymdrech, nid yw bellach yn gymaint o broblem.

2. *Ceisiais annog fy nisgyblion i fynd i Eisteddfod yr Urdd yn Rhuthun, ond cefais gŵyn gan un rhiant am sôn am y peth gan na allant ei fforddio. Sut mae delio â hyn?*

Roeddem ninnau'n frwd dros hyrwyddo digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i'r ysgol, ac wedi cael yr union broblem yma hefyd. Penderfynwyd clustnodi arian 'allgyrsiol' ar gyfer hyn, gan sefydlu cronfa i gynorthwyo teuluoedd i fynd â'u plant i ddigwyddiadau Cymraeg. O lenwi ffurflen a chyflwyno derbynebau, mae'r gronfa yn talu i deuluoedd gymryd rhan mewn achlysuron Cymraeg. Nid yw arian bellach yn cael ei ddefnyddio wedyn fel rheswm dros beidio ymwneud â'r diwylliant Cymraeg.

Ar gyfer y rhifyn nesaf, byddem yn ddiolchgar iawn am eich ymateb ar sut y mae eich ysgol chi yn annog rhieni i ddefnyddio a chefnogi'r iaith ar eu haelwydydd.

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Gwyn L. Morris
Ysgrifennydd Cyffredinol: Gruff Hughes
Golygydd *Yr Athro*: Gwenllïan Dafydd
Nid yw cynnwys *Yr Athro* o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu i'r cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Nan Williams, Prif Swyddfa UCAC, Pen Roc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AZ Ffôn: 01970-639950
Ffacs: 01970-626765 E-bost: ucac@athrawon.com www.athrawon.com
Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.

Asiantaethau yn ecsploetio athrawon

Ydych chi'n chwilio am waith fel Athro Cyflenwi? Ydych chi'n ystyried mynd at asiantaeth recriwtio athrawon neu'n gweithio i un yn barod? Cofiwch hyn am asiantaethau:

- busnes yw pob asiantaeth a'u pwrpas yw gwneud elw
- maent yn tanseilio statws a hawliau athrawon fel unigolion ac fel proffesiwn ac yn creu haen ail ddosbarth o athrawon
- er mwyn cystadlu â'i gilydd mae'n debygol y byddant yn gwerthu gwasanaeth athrawon am y pris rhataf posibl
- does dim cyfraniad i gynllun pensiwn
- does dim cynllun salwch i'ch diogelu
- gall y cyflog amrywio o ryw £55 y dydd i £90 y dydd – *cyn* treth
- mae rhai asiantaethau'n cynnig hyfforddiant ac yn defnyddio arian cyhoeddus i dalu am hyn – enghraifft arall o ecsploetiaeth gan asiantaethau. Maent yn gwneud elw ond heb fuddsoddi o gwbl yn y gyfundrefn addysg!

Mae'r arfer o ddefnyddio asiantaeth i recriwtio athrawon yn lledu trwy Gymru gyfan ond mae i'w weld yn fwy o broblem yn y De nag yn y Gogledd, ar hyn o bryd.

Mae'r Gweinidog Addysg yn Lloegr, Alan Johnson (sydd hefyd yn gyfrifol am dâl ac amodau gwaith athrawon Cymru), wedi derbyn argymhellion i ddiogelu tâl ac amodau gwaith athrawon rhan amser. Bydd UCAC yn galw arno, hefyd, i sicrhau ymchwiliad i'r defnydd o asiantaethau ac i ddiogelu athrawon rhag y fath ecsploetiaeth.

Mae rhai Awdurdodau yn Lloegr yn ymateb i'r her trwy gydweithio i sicrhau pwll o athrawon cyflenwi fydd yn derbyn cyflogau ac amodau gwaith llawn a theg. Beth mae Awdurdodau Cymru yn ei wneud? Beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud? **Dim** ar hyn o bryd!

Nid yw UCAC yn fodlon derbyn y sefyllfa. Mae UCAC yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad a'r Awdurdodau Addysg Lleol i gydweithio ar fyrder ar gynllun fydd yn diogelu athrawon sydd mewn sefyllfa fregus rhag cael eu cam-drin. Byddwn yn parhau i ymgyrchu ar y mater yn genedlaethol ac rydym am gasglu mwy o ffeithiau am brofiadau athrawon gydag asiantaethau. Os oes gennych wybodaeth cysylltwch ag ucac@athrawon.com Byddwn yn trin yr wybodaeth yn gyfrinachol.

Mae'r sioe deledu BBC
What Not To Wear
yn chwilio am bobl i gymryd rhan yn y gyfres nesaf.

YDYCH CHI NEWYDD YMDDEOL NEU AR FIN GWNEUD HYNNY?
Neu

- **yn dathlu eich hanner cant yn y chwe mis nesaf ac yn gas gennych feddwl am y peth?**
- **eisiau dyrchafiad?**
- **yn ddyn sengl sy'n methu dod o hyd i bartner?**

Ydych chi wedi treulio'r rhan fwyaf o'ch bywyd mewn dillad gwaith?
A yw'r rhyddid i wisgo fel y mynnoch yn eich dychryn?
A fyddai ffordd newydd o wisgo yn rhoi bywyd newydd i chi?

Os mai dyma chi, neu rywun yr ydych yn eu hadnabod, yna cysylltwch â **What Not To Wear** yn fuan.
Ffoniwch 020 8752 6044 neu ewch ar lein i www.bbc.co.uk/whatnottowear

Cynhadledd Ffôn – cyfleus, cynhwysfawr a chost-effeithiol!

Cynhaliwyd cynhadledd ffôn fuddiol iawn rhwng Swyddog Polisi UCAC a chynrychiolwyr BATOD (British Association of the Teachers of the Deaf) yn ddiweddar i drafod materion amrywiol, gan gynnwys: ariannu gwasanaethau AAA; lwfansau AAA; tâl ac amodau gwaith athrawon digyswllt; a sefyllfa athrawon mewn unedau arbennig. Roedd yn ffordd effeithiol o gael trafodaeth gynhwysfawr am faterion o ofid cyffredin, heb i unrhyw un orfod teithio i gyfarfod. Daeth yn amlwg yn ystod y drafodaeth bod gan UCAC a BATOD yr un gofidiau am sefyllfa athrawon digyswllt ac am y diffyg darpariaeth o ran cyfleodd hyfforddiant mewn swydd, amser CPA a datblygiad gyrfa a hefyd gofidiau am y defnydd o gynorthwywyr dosbarth. Trafodwyd hefyd y problemau sydd wedi deillio o'r ailstrwythuro – yng Nghymru ac yn Lloegr – gyda llawer o athrawon arbenigol yn colli lwfansau oherwydd natur prescriptif y disgrifiadau ar gyfer lwfansau CAD. Mae'n amlwg bod gan BATOD ac UCAC yr un safbwyntiau am nifer o faterion cyflogaeth a bydd hyn yn dod yn amlwg hefyd wrth i ni ymateb i ymholiadau'r STRB yn Llundain. Penderfynwyd y dylid trefnu cynhadledd ffôn blynyddol rhwng y ddwy undeb.

Cyfarfod Arweinwyr Cyngor Gwynedd

Ddiwedd Ionawr cafodd Gwyn Morris, y Llywydd Cenedlaethol, ac Eryl Owain, Swyddog Maes y Gogledd, gyfle i gyfarfod tri o arweinwyr Cyngor Sir Gwynedd sef Richard Parry Hughes, Arweinydd y Cyngor, Dafydd Iwan, Arweinydd y Portffolio Datblygu a Penri Jones, Arweinydd y Portffolio Addysg.

Roedd yn gyfle gwych i drafod gyda hwy rhai o'r pryderon a'r cwestiynau ynglŷn â'r ad-drefnu cynradd a godwyd gan ein haelodau yng Ngwynedd yn y cyfarfodydd undebol a gynhaliwyd ym Mhwllheli, Dolgellau a'r Bontnewydd. Croesawodd UCAC ddatganiad y cynghorwyr mai proses ymgynghorol gychwynnol a fu ar droed ac nad oes unrhyw gynlluniau pendant eisoes wedi eu llunio. Cafwyd addewid ganddynt hefyd y bydd ymgynghori trwyadl yn digwydd ag UCAC o hyn allan ac y gwneir mwy o ymdrech i gynnwys yr holl athrawon yn y trafodaethau.

Roedd yn gyfle i fynegi safbwynt UCAC ar nifer o faterion addysgol eraill. Cafwyd trafodaeth ar oblygiadau'r argyfwng ariannol y mae'r sir yn ei wynebu a phwysleisiodd UCAC bwysigrwydd sicrhau'r arian angenrheidiol i alluogi ysgolion i gynnal eu safonau addysgol uchel.

Edrychir ymlaen at drafodaethau pellach ar y cynigion i ddiwygio'r drefn ôl-16 a bydd UCAC, fel yr undeb mwyaf o ddigon yn y maes addysg yng Ngwynedd, yn sicrhau fod llais yr 800 a mwy o aelodau sydd gennym yn cael ei glywed yn glir a chroyw.

Diddordeb mewn addysg ôl-14? Gweithio mewn ysgol uwchradd neu Goleg Addysg Bellach?

Os ydych, yna bydd diddordeb gennych yn adolygiad Webb sef:

- Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru yng Nghyd-destun Y Wlad Sy'n Dysgu: Galwedigaeth ar Waith.

Mae'r adolygiad yn edrych ar holl elfennau'r ddarpariaeth **addysg gydol oes ôl-14.**

I gael gwybodaeth bellach neu i fynegi barn cysylltwch ag elaine@athrawon.com

Darpariaeth Arholiadau ar gyfer Disgyblion Anabl

Oes gennych chi ddisgyblion anabl sydd yn cael trafferthion gydag arholiadau oherwydd problemau ymarferol? Efallai fod yna broblemau gyda:

- mynediad i ystafelloedd
- papurau print bras ddim yn cyrraedd mewn pryd
- elfennau gwrando gorfodol mewn arholiadau iaith
- elfennau ymarferol gorfodol mewn arholiadau megis Gwyddoniaeth, Drama, Ymarfer Corff ac ati

Mae cyrff megis Joint Council for Qualifications (sydd yn dylanwadu ar bob Bwrdd Dyfarnu fel CBAC, OCR) yn ymchwilio i gefnogi newidiadau positif ar gyfer disgyblion anabl. Os ydych chi'n ymwybodol o broblemau sydd yn effeithio ar ddisgyblion anabl codwch y ffôn 01970 639950 neu e-bostiwch elaine@athrawon.com.

Posteri UCAC

Mae'r ysgol yn lle prysur dros ben a hawdd anghofio am ohebiaeth sydd yn dod trwy'r post oddi wrth yr undeb. Serch hynny mae'n bwysig iawn bod copi cyfredol o **Yr Athro** ac unrhyw **boster** mae'r Cynrychiolydd Ysgol yn ei dderbyn o'r brif swyddfa yn cael eu harddangos ar hysbysfwrdd yr ystafell athrawon. Dyma sut y gall UCAC gysylltu â chi'n uniongyrchol. Hyd yn hyn yn 2007 anfonwyd y canlynol:

- poster am y **Tasgau Gweinyddol** na ddylai unrhyw athro fod yn eu cyflawni mwyach
- poster yn esbonio'r ddyletswydd newydd sydd gan bob ysgol sef **Dyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl**

Os nad ydy'r rhain wedi'u harddangos ar wal yr ystafell athrawon, gofynnwch i'ch cynrychiolydd eu harddangos. Os nad oes gennych gynrychiolydd yn yr ysgol cysylltwch â phrif swyddfa UCAC am gopi personol neu ewch i wefan UCAC. Cofiwch fod angen cynrychiolydd i'r undeb ym mhob ysgol. Mae UCAC yn ceisio sicrhau nad yw'r gwaith yn feichus ond mae'n bwysig i ni gael person cyswllt ym mhob ysgol.

Y Cwricwlwm Cenedlaethol

Cofiwch fod yr ymgynghoriad ar gyfer **Gorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol** yn dod i ben diwedd mis Mawrth. Dyma'ch cyfle chi i ddweud eich dweud – fel unigolyn, adran, cyfadran neu ysgol. Manteisiwch ar y cyfle i fynegi barn – **cyn** i'r Cwricwlwm ymddangos yn ei ffurf derfynol. **Fe fydd yn rhy hwyr i gwyno wedi hynny!** Gallwch hefyd e-bostio sylwadau at **Swyddog Polisi** UCAC: elaine@athrawon.com.

Cynllun Masnach Deg Ysgolion Cymru

Rhodri Morgan gyda Jessica Oram (16 oed, Ysgol St Teilo Caerdydd) a Donald Mutale (17 oed Ysgol St Joseph Casnewydd) – llun gan Alex Skibinski, diolch i Lywodraeth Cynulliad Cymru

2007 yw'r flwyddyn y gall Gymru ddod yn wlad Masnach Deg gyntaf y byd, ond er mwyn i hyn ddigwydd, mae angen i ysgolion, athrawon a disgyblion o bob rhan o Gymru gymryd rhan.

Ysgol Masnach Deg yw un sydd wedi ymrwymo i Fasnach Deg, sy'n gwerthu ac yn defnyddio cynnyrch Masnach Deg hyd y bo modd, ac sy'n codi ymwybyddiaeth ynglŷn â Masnach Deg yn yr ystafell ddosbarth ac yn y gymuned leol.

Mae angen i bob rhan o gymdeithas yng Nghymru fod yn ymwybodol o Fasnach Deg; dyma pam y bu i Brif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan, ymuno â Fforwm Masnach Deg Cymru ddydd Mercher 14 Chwefror yn Ysgol Uwchradd Gatholig St Joseph, Casnewydd, i lawnsio Cynllun Masnach Deg Ysgolion Cymru.

Lawnsio'r Cynllun

Cyflwynodd y Prif Weinidog dystysgrifau i Ysgol Uwchradd St Joseph, Ysgol Uwchradd Bassaleg, Ysgol Uwchradd Dyffryn, Ysgol Uwchradd St Teilo ac Ysgol Uwchradd St Richard Gwyn, a fu'n cymryd rhan mewn cynllun peilot llwyddiannus yn ystod 2006. Mynychodd disgyblion o'r pum ysgol y lawnsiad ar Ddydd Sant Ffolant pan ymunodd y Prif Weinidog â hwy mewn gweithdy coginio i wneud peli siocled Masnach Deg.

Wrth siarad am ymrwymiad ei ysgol yn y fenter, dywedodd Richard Crean, Dirprwy Bennaeth Ysgol Uwchradd St Joseph, Casnewydd: "*Bydd y cynllun yn helpu disgyblion i ddeall y rôl y gall Cymru ei chwarae wrth wneud y byd yn lle tecach i bawb. Mae brwdfrydedd aruthrol dros Fasnach Deg ymhlith pobl ifanc; y cyfan sydd ei angen arnynt yw cyfle i gymryd rhan!*"

Helpu eraill

Mae Cynllun Masnach Deg Ysgolion Cymru yn galluogi disgyblion ac athrawon i gysylltu ein bywydau ni yng Nghymru â bywydau pobl yng ngwledydd tlotaf y byd, sy'n cynhyrchu llawer o'r pethau yr ydym yn eu prynu. Drwy Fasnach Deg, mae pum miliwn o ffermwyr a'u teuluoedd ar eu hennill a gall ysgolion gynyddu'r nifer hwn.

Y Cynllun

- camau ymarferol hawdd-i'w-dilyn a hyblyg er mwyn dysgu a chefnogi Masnach Deg yn yr ystafell ddosbarth, yr ystafell fwyta, yr ystafell athrawon a thrwy weithgareddau allgyrsiol
- cyfle i'r disgyblion ddysgu sgiliau newydd
- targed y gall disgyblion ac athrawon anelu ato
- gwobr a **chydnabyddiaeth genedlaethol** am yr holl waith caled
- gall gyfrannu at ymgyrch Mae Pob Plentyn yn Cyfrif
- adnoddau i'r athrawon i'w helpu i ddatblygu pob un o naw elfen Addysg er Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF)
- gall ategu gwobrau 'Ysgolion Eco' ac 'Ysgolion Iach', neu gall sefyll ar ei ben ei hun
- y defnyddiau craidd i gyd yn ddwyieithog, ynghyd â nifer cynyddol o'r adnoddau ychwanegol

Os hoffech chi ganfod mwy ynglŷn â chynllun Ysgolion Masnach Deg Cymru, ac i gael cysylltiadau i adnoddau pellach, ewch i www.masnachdegcymru.com

Hunanladdiad – ymyrryd yn gynnar **Hyfforddiant ASIST**

(gweler hefyd yr erthygl am hunanladdiad yn rhifyn diwethaf *Yr Athro*)

Yr Her

Rydych yn fwy tebyg o ddod ar draws rhywun sy'n ystyried lladd ei hun na rhywun sydd angen adfywio'r galon a'r ysgyfaint (CPR). Roedd y nifer o bobl ifanc a laddodd eu hunain rhwng 1994 a 2004 **bum gwaith yn fwy yng Nghymru** na'r nifer o'r un oedran yn Lloegr.

Yn union fel y gall sgiliau CPR wneud cymorth cyntaf corfforol yn bosibl, mae hyfforddiant ymyrryd mewn hunanladdiad yn meithrin y sgiliau a ddefnyddir mewn cymorth cyntaf hunanladdiad, ac yn rhoi'r hyder i chi eu defnyddio.

Gweithdy

Mae gan Mind Cymru raglen hyfforddi o'r enw *Applied Suicide Intervention Skills Training* (ASIST), sy'n cynnig hyfforddiant ymarferol wrth ddangos sut i ymyrryd yn gynnar petaech yn amau bod rhywun am ladd eu hunain.

Yng ngweithdy ASIST, mae'r pwyslais ar gymorth cyntaf, sef pwyslais ar helpu'r person sydd dan bergyl i aros yn ddiogel ac i chwilio am fwy o gymorth. Nid therapi yw ASIST.

Mae'r mynychwyr yn aml yn cynnwys athrawon a chwnselwyr, gweithwyr iechyd, lles neu gyfiawnder, gwirfoddolwyr yn y gymuned, gweithwyr y gwasanaethau brys a phobl sy'n pryderu am deulu neu ffrindiau.

Ar y cwrs byddwch yn dysgu sut i:

- Adnabod cais am gymorth
- Estyn allan a chynnig cefnogaeth a chymorth
- Adolygu'r perygl o hunanladdiad
- Gweithredu model ymyrraeth mewn hunanladdiad
- Rhoi pobl mewn cysylltiad ag adnoddau yn y gymuned

Mae'r gweithdy yn cynyddu eich gwybodaeth a'ch hyder i ymateb i berson sydd mewn perygl o ladd ei hun gan ddefnyddio'r sgiliau a ddysgwyd i achub bywydau.

Dyddiadau hyfforddi:

12fed a 13eg Mawrth 2007	Casnewydd
15fed a 16eg Mawrth	Cyffiniau Porthmadog
19eg ac 20fed Mawrth 2007	Llambed
2il a 3ydd Ebrill 2007	Llanelwedd
12fed a 13eg Ebrill 2007	Cyffiniau Caergybi
23ain a 24ain Ebrill 2007	Abertawe
9fed a 10fed Mai 2007	Ger y Trallwng

Pris y gweithdy deuddydd yw £150.00 (£50 i'r rhai heb gyflog), sy'n cynnwys yr holl ddeunyddiau, llawlyfr a lluniaeth a chinio bob dydd.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch hyfforddiant ASIST, cysylltwch â Joyce Borgs o Mind Aberystwyth ar 01970 626225 neu gyrrwch e-bost ati i joyce.mind@btconnect.com